Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

21 Rhagfyr 2017

Annwyl Vaughan,

GOBLYGIADAU ARIANNOL BIL IECHYD Y CYHOEDD (ISAFBRIS AM ALCOHOL) (CYMRU)

Diolch am rannu eich ateb i Dai Lloyd ynglŷn â'r dyddiad ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad llawn gan Brifysgol Sheffield ar effeithiau isafbris uned yng Nghymru. Byddwch yn cofio imi ysgrifennu atoch ar 12 Rhagfyr yn gofyn am eglurhad ynglŷn â'r mater hwn.

Rwy'n ymwybodol bod Dai Lloyd wedi ysgrifennu atoch yn nodi ei siom oherwydd yr oedi o ran cyhoeddi'r adroddiad; rhannaf ei bryderon ynghylch effaith yr oedi hwn ar allu pwyllgorau i roi sylw i'r gwaith diweddaraf yn ein hadroddiadau.

Mae'n bosibl y gallai'r wybodaeth yn adroddiad Prifysgol Sheffield gael effaith sylweddol ar benderfyniad Llywodraeth Cymru ynghylch lefel yr isafbris uned, a gallai hynny, o ganlyniad, newid y wybodaeth a ddarperir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae gennyf bryder felly na fydd gan y Pwyllgor gyfle i roi sylw i effaith y canfyddiadau pwysig hyn yn ei adroddiad os na fydd y wybodaeth hon ar gael cyn diwedd Cyfnod 1.

Yn gywir

Simon Thomas
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565